



## Taflen wybodaeth mewn perthynas ag Etholiadau Lleol Mai 2022

**Diben y ddogfen hon yw sicrhau bod Ymgeiswyr ac Asiantiaid yn ymwybodol o'r Canllawiau a'r Wybodaeth sydd ar gael iddynt, yn ogystal â nifer o faterion sydd wedi codi yn y gorffennol a arweiniodd at ymyrraeth gan yr heddlu. Cyhoeddir y cyngor hwn er mwyn lleihau'r angen ar gyfer ymyrraeth gan yr heddlu yn y broses ddemocrataidd bwysig hon.**

Mae gan wefan y Comisiwn Etholiadol [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk) gyfoeth o wybodaeth ar gyfer unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r broses etholiad, ac mae'n cynnwys cyngor ar gyfer gweithwyr proffesiynol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid.

Mae'r '**Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr ac Asiantiaid**' a'r '**Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: cofrestru etholiadol, pleidleisio drwy'r post, pleidlais drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio**' yn arbennig o berthnasol.

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn diffinio'r rhan fwyaf o droseddau ar gyfer etholiadau seneddol y DU, etholiadau llywodraeth leol a materion pleidleisio drwy'r post a chofrestru etholiadol ledled y DU. Gall deddfau eraill fod yn berthnasol hefyd, megis deddfau sy'n ymwneud â llwgrwobrwyd, gwneud datganiad ffug, ffugio, defnyddio offeryn ffug, cynllwynio i dwyllo a darpariaethau cyfraith gyffredin.

Os oes gennych unrhyw ymholaadau, neu os hoffech geisio eglurhad mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r etholiad, mae'r Swyddogion Canlyniadau a llwybrau cyngor eraill yn medru'ch cynorthwyo; mae'n hollbwysig eich bod chi'n cael cyngor cyn gweithredu os oes gennych unrhyw bryderon.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o faterion sydd wedi'u hadrodd i'r heddlu a'u hymchwilio ganddynt yn y gorffennol:

- Tretio - rhoi unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio, neu ymatal rhag pleidleisio, cyn neu ar ôl etholiad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
- Personiad – pan mae unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall;
- Gwasgnodau – Rhaid ychwanegu gwasgnod i ddeunydd etholiad sydd wedi'i argraffu, a rhaid iddo gynnwys enw a chyfeiriad post yr argraffydd, hyrwyddwr y deunydd, ac unrhyw berson y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar ei ran. Pan mae'r deunydd yn cael ei argraffu ar ddogfen unochnog, rhaid i'r manylion perthnasol ymddangos ar wyneb y ddogfen. Pan mae'r deunydd yn cael ei argraffu ar fwy nag un ochr, rhaid i'r manylion gofynnol ymddangos ar dudalen gyntaf neu dudalen olaf y ddogfen;
- Datganiadau ffug o'r ffeithiau am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ganlyniad yr ymgeisydd hwnnw. Cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n creu'r posteri, taflenni neu ddatganiadau yw sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddweud yn ffeithiol gywir. Os fyddwch chi'n dyfynnu deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd, mae'n bosibl y bydd angen i chi nodi'ch ymdrechion i wirio ei ddilysrwydd;
- Pleidleisio drwy'r post - cofrestru enwau ffug ar y gofrestr etholiadol, cofrestru'r un unigolyn ar gyfer cyfeiriadau gwahanol, ffugio dogfennaeth pleidlais drwy ddirprwy, bygwth a brawychu mewn adeiladau megis sefydliadau gofal.



## Information sheet relating to the Local Elections May 2022

**The purpose of this document is to ensure that Candidates and Agents are aware of the Guidance and Information available to them, as well as highlighting a number of issues that have arisen previously which resulted in police intervention. This advice is issued in order to reduce the need for police intervention in this important democratic process.**

The Electoral Commission website [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk) has a wealth of information for anyone involved in the election process and includes advice for professionals, political parties, candidates and agents.

Of particular relevance is the '**Guidance for candidates and agents**' and the '**Code of conduct for campaigners: electoral registration, postal voting, proxy voting and polling stations**'

The Representation of the People Act 1983 defines most offences for UK Parliamentary elections, local government elections and for electoral registration and postal voting issues across the UK. Other legislation, such as that relating to bribery, making a false statement, forgery, using a false instrument, conspiracy to defraud and common law provisions may also apply.

If you have any queries or wish to seek clarification in respect of any aspect of the election, the Returning Officers and other avenues for advice are able to assist; it is imperative that if you have any concerns you obtain advice before you act.

The following are examples of issues that have previously been reported to and investigated by the police:

- Treating – before, during or after an election directly or indirectly give or provide any food, drink, entertainment or provision in order to influence any voter to vote or to refrain from voting;
- Personation – whereby an individual votes as someone else;
- Imprints - An imprint must be added to printed election material and must contain the name and postal address of the printer, the promoter of the material and any person on behalf of whom the material is being published. Where the material is printed on a one-sided document, the relevant details must appear on the face of the document. Where the material is printed on more than one side, the required details must appear on either the first or last page of the document;
- False statements of fact about the personal character or conduct of a candidate in order to affect the return of that candidate. It is up to the person making the posters, leaflets or statements to make sure that what is being said is factually correct, if you quote material that is in the public domain you may need to identify what efforts you have made to check its authenticity;
- Postal voting - registration of fictitious names to the electoral register, registration of the same individual at different addresses, falsifying proxy documentation, threats and intimidation in premises such as care establishments